Pecyn Cymorth HIC

Asesu'r Effaith ar Iechyd

Gwella iechyd a lles yw un o flaenoriaethau pwysicaf agenda strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru *Cymru: Gwlad Well* . Mae *Her Iechyd Cymru* yn annog sefydliadau ac unigolion i ymuno â'r ymdrech genedlaethol i wella iechyd.

Ceir pwyslais arbennig ar helpu sefydliadau i ystyried sut mae eu gwasanaethau a'r ffordd maent yn gweithredu'n effeithio ar iechyd pobl. Mae hyn yn cynnwys edrych ar benderfynyddion iechyd ehangach, sy'n cynnwys, er enghraifft, yr amgylchedd, cyflogaeth, tai a thrafnidiaeth.

Mae asesu'r effaith ar iechyd yn un ffordd o gefnogi sefydliadau yn y sector iechyd a thu hwnt i adnabod y cysylltiadau rhwng eu gwaith ac iechyd a lles pobl. Mae'n ffordd hyblyg a rhagweithiol iawn i sicrhau bod effeithiau posibl ar iechyd a lles pobl yn cael eu hystyried yn y broses o lunio cynlluniau a phenderfyniadau. Yn yr achos hwn, mae cyswllt cryf rhwng ymroddiad ymarferol o waith asesu'r effaith ar iechyd a *Creu'r Cysylltiadau* , sydd wedi gwneud gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn un o'i egwyddorion craidd. Mae asesu'r effaith ar iechyd hefyd yn darparu cyfleoedd i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau ym maes iechyd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi'r datblygiad a'r defnydd a wneir o asesu'r effaith ar iechyd yng Nghymru, ac mae'n gweithio gyda phartneriaid yn Uned Cymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru, Canolfan Iechyd Cymru, Llywodraeth Leol, Byrddau Iechyd Lleol a Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru i ddatblygu'r gwaith hwn. Yn 2004, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru arweiniad i helpu sefydliadau ddefnyddio asesu'r effaith ar iechyd.

- Gwella Iechyd a Lleihau Anghydraddoldebau: Arweiniad ymarferol i asesu'r effaith ar iechyd [PDF]

Ariennir Uned Cymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â Chanolfan Iechyd Cymru.

Os hoffech drafod sut y gallech ddefnyddio asesu'r effaith ar iechyd, cysylltwch ag:

Uned Cymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru
Athrofa y Gymdeithas, Iechyd a Moeseg Caerdydd
Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol
Prifysgol Caerdydd
53 Plas y Parc
Caerdydd
CF10 3AT

Cysylltiadau:

- Alison Golby (De Cymru) Ffôn: 029 2087 9161
- Liz Green (Gogledd Cymru) Ffôn: 01978 313 664